Crynodeb o dymor y ffliw 2018-19 yng Nghymru

Mae'r dudalen hon yn cyflwyno crynodeb epidemiolegol o dymor y ffliw 2018-19 yng Nghymru a'r ymgyrch frechu rhag y ffliw yn 2018-19 yng Nghymru. I weld yr adroddiad goruchwylio llawn y mae'r wybodaeth hon yn seiliedig arno, ewch i:
https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=55714

Os ydych chi eisiau cyfieithiad Cymraeg o unrhyw agwedd benodol ar yr adroddiad goruchwylio llawn, cysylltwch â: surveillance.requests@wales.nhs.uk

Y tymor

Roedd tymor y ffliw 2018/19 yng Nghymru yn llai difrifol na thymor 2017/18, ond fe gyflwynodd faich arwyddocaol o afiechyd yr un fath. Cafodd llai o achosion ddiagnosis mewn meddygfeydd a chadarnhawyd llai o achosion mewn ysbytai neu Unedau Gofal Dwys nag yn 2017/18. Roedd dwysedd y tymor, yn ôl rhai dangosyddion goruchwylio o leiaf, yn ymddangos yn debyg i dymhorau 2015/16 a 2016/17. Fodd bynnag, roedd nifer yr achosion a gafodd ddiagnosis yn y gymuned a'u cadarnhau mewn ysbytai yn uwch na phob tymor ar ôl 2010/11 a chyn 2017/18. Adroddwyd am lai o achosion o'r ffliw i Iechyd Cyhoeddus Cymru y tymor hwn o gymharu â'r tymor diwethaf. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran yr achosion mewn cartrefi gofal o gymharu â 2017/18, ond cynyddodd cyfran yr achosion a nodwyd mewn ysbytai.

Dechreuodd y dangosyddion goruchwylio am gylchrediad yn y gymuned gynyddu o ganol mis Rhagfyr ymlaen ac, erbyn wythnos y Nadolig, roedd yn uwch na'r trothwy i ddynodi lefelau disgwyliedig tymhorol o gylchrediad y ffliw. Roedd cyfradd ymgynghori sentinel wythnosol y meddygon teulu ar gyfer cleifion gyda symptomau salwch tebyg i'r ffliw ar ei huchaf dair wythnos yn hwyrach ar lefelau dwysedd canolig. Fel cyfanswm, roedd cyfradd ymgynghori sentinel y meddygon teulu ar gyfer salwch tebyg i'r ffliw yn uwch na'r trothwy ar gyfer gweithgarwch tymhorol am naw wythnos, gan gynnwys pedair wythnos ar ddwysedd canolig. Roedd y dangosyddion goruchwylio ar gyfer y ffliw ymhlith cleifion mewn ysbytai yn uwch na'r trothwy sylfaenol am y tro cyntaf, ac ar ei uchaf, ar amser tebyg a lefel dwysedd debyg i'r dangosyddion goruchwylio yn y gymuned. Fodd bynnag, roedd cynffon estynedig i'r tymor mewn ysbytai, gyda chyfran y cleifion oedd wedi profi'n bositif am y ffliw ddim yn dychwelyd i'r lefelau sylfaen am 10 wythnos ychwanegol. Roedd newid mewn patrymau profi mewn ysbytai y tymor hwn, gan ehangu'r gwasanaethau profi cyflym ar gyfer y ffliw. Bydd y cynnydd o ganlyniad yn nifer y profion a gynhaliwyd wedi cyfrannu at nifer cyffredinol y cleifion a gadarnhawyd mewn ysbytai y tymor hwn a rhaid bod yn ofalus felly wrth gymharu â thymhorau blaenorol. Oherwydd y newid hwn mewn patrymau profi, canfuwyd cyfran uwch o firysau ffliw A mewn cleifion oedd yn mynychu ysbytai na chafodd eu his-deipio ymhellach y tymor hwn.

Yn gyffredinol, ffliw A(H1N1)pdm09 oedd y math amlycaf o'r ffliw ar gyfer tymor 2018/19, fodd bynnag, cynyddodd cyfran yr achosion o ffliw A(H3N2) drwy gydol mis Chwefror a hwn oedd y ffliw amlycaf a ganfuwyd yn ystod wythnosau olaf y tymor. Dim ond niferoedd bach o achosion ysbeidiol o ffliw B a gadarnhawyd yng Nghymru y tymor hwn.

Awgrymodd nodweddion genetig firysau ffliw yr achosion a gadarnhawyd bod firysau A(H1N1)pdm09 yn debyg i straen brechiad hemisffer y Gogledd yn 2018/19. Roedd tystiolaeth o rywfaint o amrywiaeth genetig yn firysau ffliw A(H3N2). Roedd mwyafrif y ffliw A(H3N2) a nodweddwyd yn perthyn i gytras 3C.2a1b, fodd bynnag, gwelwyd niferoedd llai o firysau 3C.2a2 a 3C.3a. Roedd straen brechiad ffliw A(H3N2) hemisffer y Gogledd 2018/19 yn firws 3C.2a a'r straen

brechiad ffliw A(H3N2) a argymhellir ar gyfer brechiad ffliw hemisffer y Gogledd 2019/20 yw firws 3C.3a.

Y niferoedd a gafodd frechiadau

Eto, cafodd brechiad y ffliw ei dderbyn gan fwy o unigolion nag erioed o'r blaen mewn grwpiau sy'n wynebu risg a grwpiau a argymhellir y tymor diwethaf. Brechwyd amcangyfrif o 868,668 o bobl, gan gynrychioli 28% o boblogaeth Cymru. Ymhlith y rhai 65 oed a hŷn, cafodd 68.3% eu brechu (457,200 o unigolion), gostyngiad bychan o gymharu â'r tymor diwethaf pryd gwelwyd y nifer mwyaf erioed yn y grŵp hwn. Gwelwyd gostyngiad bach i 44.1% (192,352 o unigolion) mewn grwpiau risg clinigol y tymor hwn hefyd.

Cafodd y rhaglen brechu plant rhag y ffliw y tymor hwn ei hymestyn yn llawn i gynnwys pob plentyn rhwng 2 a 10 oed, a derbyniodd 209,066 ohonynt y brechiad. Cafodd 49% o blant dwy a thair oed y brechiad a chynyddodd i 70% ymhlith plant pedair i 10 oed. Roedd canran y merched beichiog a gafodd frechiad y ffliw yn sefydlog yn 74%; cafodd y ganran ei hamcangyfrif mewn arolwg (ôl-eni). O ran nifer staff rheng flaen y GIG a gafodd y brechiad, bu gostyngiad i 56%, ar ôl tuedd dymor hir bositif hyd at 2017/18.

Effeithiolrwydd brechu

Yr amcangyfrif diwedd tymor dros dro ar gyfer effeithiolrwydd brechiad tymhorol y ffliw yn 2018/19 yn y DU oedd 44.3% (95% CI 26.8% i 57.7%) yn erbyn yr holl achosion o'r ffliw a gadarnhawyd mewn labordy. Yn erbyn ffliw A(H1N1)pdm09 yn benodol, roedd yr effeithiolrwydd yn 45.7% (95% CI 26.0% i 60.1%) ac yn erbyn ffliw A(H3N2) roedd yn 35.1% (95% CI -3.7% i 59.3%).

Hwn yw'r tymor cyntaf i frechiad y ffliw trifalent llonydd cynorthwyol fod ar gael yn y Deyrnas Unedig a chael ei argymell ar gyfer cleifion 65 oed a hŷn. Amcangyfrifwyd bod effeithiolrwydd y brechiad yn y grŵp hwn yn 62.0% (95% CI: 3.4%, 85.0%) yn erbyn unrhyw fath o ffliw. Amcangyfrifwyd bod effeithiolrwydd y chwistrell Brechu yn y Trwyn Gwannach Byw yn 48.6% (95% CI: -4.4%, 74.7%) mewn plant dwy i 17 oed.